Canolfan Grefft Rhuthun
Y Ganolfan i'r Celfyddydau Cymhwysol

Ruthin Craft Centre
The Centre for the Applied Arts

Chwefror hanner-tymor

Mae gennym ddigon o weithgareddau a digwyddiadau i'ch ysbrydoli a'ch diddanu'r hanner-tymor Chwefror yma – ar gyfer POB oed!

February half-term

We have plenty of activities and events to inspire and keep you entertained this February half-term – For ALL ages!

Gweithdai Crefft *GWNEUD*
MAKE Craft Workshops

Ar gyfer POB oed! / For ALL ages!

Verity Pulford

I ddathlu diwedd ein rhaglen 2 flynedd *Beth yw Crefft?* ynghyd ag agoriad ein harddangosfa newydd *GWNEUD* yn ein 3 oriel, rydyn ni wedi gwahodd gwneuthurwyr i arwain cyfres o weithdai drwy gydol hanner-tymor Chwefror yn rhan o'n digwyddiadau dathliadol Crefft.

To celebrate the conclusion of our 2 year *What is Craft?* programme, along with the opening of our new *MAKE* exhibition in our 3 galleries, we have invited makers throughout February half-term to lead a series of workshops as part of our celebratory Craft events.

Mae'r Gweithdai hyn wedi'u hariannu gan y Paul Hamlyn Foundation.
These workshops have been funded by the Paul Hamlyn Foundation.

AM DDIM

Sadwrn 18 Chwefror
1.30pm – 3.30pm

Verity Pulford – Gwneuthurwr Gwydr
Archwilio'r haenau, y tryleuedd a'r themâu y bydd Verity'n eu defnyddio yn ei gwaith gwydr, ond byddwch yn gweithio â phapurau, asetadau a phapur sidan. Yna gellir rhoi'r darn at ei gilydd i wneud daliwr golau y gallwch fynd ag o adref y diwrnod hwnnw.

Karen Williams – Gemydd a gofaint metel
Defnyddio alwminiwm a defnydd hapgael oddi ar draeth yn ysbrydoliaeth – cyfle i fwynhau hydrinedd metel drwy gryn dipyn o forthwylio. Byddwch yn patrymu ac yn ffurfio'r alwminiwm yn godau neu'n gromennau i greu eich darn gwisgadwy unigryw chi.

FREE

Saturday 18 February
1.30pm – 3.30pm

Verity Pulford – Glassmaker
Explore the layers, translucency and themes which Verity uses within her glass work, but you will be working with papers, acetates and tissue. Your piece can then be fixed together to make a light catcher, which can be taken away that day.

Karen Williams – Jeweller and metalsmith
Using aluminium and beach finds for inspiration – a chance to enjoy the malleability of metal through lots of hammering. You will pattern and form the aluminium into pods or domes to create your unique wearable piece.

AM DDIM

Sadwrn 25 Chwefror
1.30pm – 3.30pm

Nerys Jones – Artist tecstilau
Gwneud darn o emwaith addurniadol gan ddefnyddio ystod o ddefnyddiau i greu patrymau a gweadeddau diddorol wedi'u hysbrydoli gan y gwaith sy'n cael ei arddangos yn ein harddangosfa *GWNEUD*.

Ticky Lowe – Artist ffibr
Gwneud ffigwr miniatur gan ddefnyddio weiren, gwlân a dewis cyffrous o weadeddau, lliwiau, sgrapiau o ffabrig patrymog a botymau.

FREE

Saturday 25 February
1.30pm – 3.30pm

Nerys Jones – Textile artist
Make a decorative piece of jewellery using a range of materials to create interesting patterns and textures inspired by the work displayed in our exhibition *MAKE*.

Ticky Lowe – Fibre artist
Make a miniature figure using wire, wool and an exciting choice of textures, colours, patterned fabric scraps and buttons.

AM DDIM yn addas i bob oed, dim angen bwcio. Galwch heibio ar unrhyw adeg neu dewch i dreulio'r prynhawn cyfan â ni / **FREE** suitable for all ages, no need to book. Pop in at any time or come and spend the whole afternoon with us.

Rhi Moxon

Nerys Jones

Dosbarth Meistr ar gyfer rhai 11–14 oed â'r Gwneuthurwr Printiau Rhi Moxon

Dydd Mawrth 21 Chwefror
10.30am – 3.30pm
£8.50 ffoniwch i neilltuo lle

Dewch i ymuno â'r darlunydd a'r gwneuthurwr printiau Rhi Moxon i greu dyluniadau ffabrigau lliwgar, nwyfus y gallwch fynd â nhw adref i'w gwneud yn ba beth bynnag a fynnwch chi! Gan ddefnyddio'r arddangosfa *GWNEUD* fel man cychwyn fe wnawn 'map meddwl', dylunio ac yna brintio ar ffabrig gan ddefnyddio'r dull o 'brintio sgrin'. Gallwch ddefnyddio beth bynnag a fynnwch chi fel ysbrydoliaeth ac yna greu dyluniadau gorgyffyrddol yn eich hoff liwiau i wneud dyluniad ffabrig unigryw y gellir ei ddefnyddio wedyn i wneud clustogau, bagiau neu hyd yn oed ddillad.

Ymunwch â Rhi am ddiwrnod o hwyl yn sgrin-brintio ac yn gwneud patrymau!

Bydd angen i chi ddod â pecyn chinio efo chi'r diwrnod hwnnw.

Master-class for 11–14 year olds with Print-maker Rhi Moxon

Tuesday 21 February
10.30am – 3.30pm
£8.50 please call to book a place

Come join illustrator and print-maker Rhi Moxon to create vibrant, colourful fabric designs which you can take home and make into whatever you like! Using the *MAKE* exhibition as our starting point we will mind map, design, and then print onto fabric using the method of 'screen printing'. You can use whatever you like as your inspiration and then create overlapping designs in your favourite colours to make a unique fabric design which could then be used to make cushions, bags, or even clothes.

Join Rhi for a fun day of screen-printing and pattern making!

You will need to bring a packed lunch with you on the day.

Clwb Crefft ar gyfer rhai 5–10 oed. Offerynnau cerddorol â Donna Jones

Dydd Iau 23 Chwefror
10.30am – 12.30pm neu
1.30pm – 3.30pm
£5 ffoniwch i neilltuo lle

Oes gennych chi ddiddordeb mewn miwsig neu efallai yr hoffech fod yn gerddor un diwrnod? Yna dewch draw i'r gweithdy yma a rhoi cynnig ar wneud eich offeryn eich hun â llaw wedi eich ysbrydoli gan offerynnau cerddorol Philip Lourie yn yr arddangosfa *GWNEUD.*

Dewch i wneud sŵn, 'ysgwyd rhuglen a rôl'.

Mae'n rhaid i bob plentyn fod ag oedolyn gydag o.

Craft Club for 5–10 year olds. Musical instruments with Donna Jones

Thursday 23 February
10.30am – 12.30pm or
1.30pm – 3.30pm
£5 please call to book a place

Are you interested in music or perhaps you would like to be a musician one day? Then why not come along to this workshop and have a go at making your own handcrafted instrument inspired by Philip Lourie's musical instruments in the exhibition *MAKE.*

Come and make some noise, shake, rattle and roll.

All children must be accompanied by an adult.

Chwarae Anniben
Messy Play

Gwneud Cysylltiadau: Chwarae Anniben ag Emma Jayne Holmes – ar gyfer rhieni a phlant bach

Dewch draw gyda'ch plentyn bach i gael golwg â chymorth ar ein harddangosfeydd ac yna sesiwn o chwarae anniben yn yr ystafell addysg.

Making Connections: Messy Play with Emma Jayne Holmes – for parents and toddlers

Come along with your toddler to an assisted viewing of our exhibitions followed by a messy play session in the education room.

Dydd Mercher 8 Mawrth
AM DDIM
10.00am – 11.30am
Mae'r holl sesiynau AM DDIM ffoniwch i neilltuo lle gan fod lleoedd yn gyfyngedig.

GWNEUD: Gan dynnu ar ysbrydoliaeth o'r arddangosfa gyfredol *GWNEUD* byddwn yn edrych ar liwiau clai a gweadeddau, felly rydyn ni'n neidio i mewn ac yn baeddu wrth archwilio cleiau. Yna byddwn yn addurno hefyd gyda phrintio mono wedi'i ysbrydoli gan waith serameg Gordon a Nancy Baldwin.

Wednesday 8 March
FREE
10.00am – 11.30am
All sessions are FREE please call to book a place as spaces are limited.

MAKE: Taking inspiration from the current *MAKE* exhibition we will be looking at clay colours and textures, so we are diving in and getting mucky exploring clays. We will also then be decorating with mono printing inspired by Gordon and Nancy Baldwin's ceramic work.

Canolfan Grefft Rhuthun
Y Ganolfan i'r Celfyddydau Cymhwysol
Heol y Parc, Rhuthun, Sir Ddinbych LL15 1BB
Ffon: +44 (0)1824 704774

Mynediad AM DDIM. Parcio ar-safle AM DDIM
Ar agor 10.00am – 5.30pm
www.canolfangrefftrhuthun.org.uk

Ruthin Craft Centre
The Centre for the Applied Arts
Park Road, Ruthin, Denbighshire LL15 1BB
Tel: +44 (0)1824 704774

FREE Admission. FREE On-site parking
Open 10.00am – 5.30pm
www.ruthincraftcentre.org.uk

Canolfan Grefft Rhuthun Y Ganolfan i'r Celfyddydau Cymhwysol Ruthin Craft Centre The Centre for the Applied Arts
sir ddinbych denbighshire
Cyngor Celfyddydau Cymru, Arts Council of Wales
Supported by The National Lottery through the Arts Council of Wales
Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru
Llywodraeth Cymru Welsh Government

ffotograffi: trwy garedigrwydd yr artistiaid / photography: courtesy of the artists